Dod â'r Beibl yn fyw i bob plentyn ym mhob ysgol gynradd

Helo, a diolch i chi am ofyn am ragor o wybodaeth am Agor y Llyfr.

Mae Agor y Llyfr yn rhoi cyfle i blant ein hysgolion cynradd i glywed prif hanesion y Beibl yn gronolegol neu'n thematig, drwy gydol y flwyddyn ysgol. Mae'n rhaglen tair mlynedd, gyda blwyddyn ychwanegol ond dewisol o ddeunydd yn seiliedig ar Werthoedd Cristnogol, i gyd yn rhan o'r meini prawf ar gyfer gwasanaethau/Addoli ar y cyd. Bydd timau o Gristnogion o'r eglwysi lleol yn dod at ei gilydd i actio, meimio neu ddramateiddio storïau'r Beibl mewn cyflwyniad sy'n para 10-15 munud.

Mae Agor y Llyfr yn bodloni meini prawf addoli ar y cyd o safon dda, ac yn cyflawni gofynion OFSTED a SIAMS (Arolygiad Ysgolion Eglwys).

Mae'r pecyn yn cynnwys:

- Taflen wybodaeth am Agor y Llyfr
- Sut i ddechrau
- Sut i gofrestru eich tîm
- Beth i ddisgwyl nesa
- Ffurflen gofrestru
- Enghraifft o lawlyfr Blwyddyn 1
- Sut i gael hyfforddiant
- Ein Côd Ymarfer
- Diogelu – crynodeb

Byddem wrth ein bodd pe baech yn ymuno â ni ar y daith arbennig hon. Yn gyntaf, edrychwch ar yr awgrymiadau defnyddiol sydd yn dilyn. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni – 'rydym yma i'ch helpu bob cam o'r ffordd.

Sut i ddechrau

Gwnewch ymholiadau i weld pwy sydd â chalon i fynd i mewn i'r ysgol gynradd i gyflwyno hanesion y Beibl gan nodi beth sydd gan bawb i'w gynnig – gorau po fwyaf! Mae chwech o bobl yn gwneud tîm maint da, ond mae ein hadroddiadau yn dangos mai tîm o 8 sy'n arferol ar gyfartaledd. Mae hyn yn caniatáu i'r aelodau gymryd rhan unwaith y mis, bob pythefnos neu bob wythnos – mae'n dibynnu ar batrwm byw yr unigolion. Gofynnwch a yw'r amser ganddynt i ymrwymo i'r rhaglen, gan dderbyn fod angen cyfnodau o ymarfer, ac amser i fynd â'r cyflwyniad i'r ysgol ac i greu propiau.

Cysylltwch â'r ysgol gynradd leol gan adeiladu ar unrhyw gysylltiadau sydd eisoes yn bodoli – cyswllt drwy arweinwyr yr eglwys, llywodraethwyr ysgol, goruchwylwyr canol dydd neu rieni ayb.

Penodwch Arweinydd ac Is-Arweinydd i'r Tîm– gwell osgoi cael y ddau o'r un cartref er mwyn sicrhau nad yw cyfnodau o salwch neu wyliau yn amharu ar y ddarpariaeth.

Dylai'r tîm fod yn aelodau mewn eglwys/capel a gellir cynnwys staff sy'n gweithio mewn ysgol yn rhan amser.

Gallwn ddarparu gwybodaeth ar sut i dderbyn Hyfforddiant Cychwynnol ar gyfer y rhai sy'n dangos diddordeb yn y rhaglen neu ar gyfer pobl sydd am ffurfio tîm – gallant ddod o un eglwys neu nifer o eglwysi.

Sut i dderbyn hyfforddiant

Yr arfer orau yw ceisio hyfforddiant gan hyfforddwyr sydd wedi eu cymeradwyo gan Agor y Llyfr – ewch i'n gwefan i weld rhestr o'r hyfforddwyr cyfredol. Fel arfer bydd ein sesiynau hyfforddi yn cael eu cynnal mewn ymateb i geisiadau sy'n dod i law (felly nid oes strwythur daearyddol penodol). Mae'n bosib fod gennym hyfforddwyr gwirfoddol lleol yn agos i chi, ond mae modd defnyddio ein hyfforddwyr cenedlaethol hefyd.

Yn ddelfrydol, mae angen isafswm o 12 neu fwy er mwyn cynnal sesiwn hyfforddiant. Os oes modd i chi gyfrannu tuag at ein costau teithio, bydd modd wedyn i ddefnyddio eich cyfraniad ariannol er hyrwyddo ac ehangu cynllun Agor y Llyfr.

Os nad oes hyfforddwyr o fewn cyrraedd i'ch ardal neu os nad yw'n gost effeithiol i ni deithio atoch, mae'n bosib anfon DVD hyfforddi atoch. Bydd angen rhywun yn eich grŵp sy'n meddu ar ychydig o sgiliau hwyluso i wneud hyn. Dewch i gysylltiad ac fe wnawn ein gorau i gefnogi eich anghenion hyfforddi. Danfonwch e-bost atom gyda mwy o fanylion er mwyn i ni geisio'r ffordd orau i'ch helpu, y cyfeiriad yw: training@openthebook.net (bydd yn rhaid cyflwyno'r cais yn y Saesneg gan fod y swyddfa yn Lloegr, ond mae'n bosib y bydd modd darparu'r hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg).

Sut i gofrestru eich tîm

Cwblhewch y Ffurflen Gofrestru Tîm, **gan gofio fod angen i bob aelod o'r tîm gwblhau ac arwyddo 'r adran briodol er mwyn cydymffurfio â gofynion data.**

Dylech gynnwys manylion yr ysgol. Dylech gynnwys manylion yr eglwys.

Wedi llenwi'r ffurflen, anfonwch y ffurflenni i'r cyfeiriad: OtB, Bible Society, Stonehill Green, Westlea, Swindon SN5 7DG neu e-bostiwch: enquiries@openthebook.net.

Caniatewch 10-14 diwrnod er mwyn cwblhau'r cofrestru.

Ein Côd Ymarfer

Gofynnir i bob arweinydd tîm drafod ein Côd Ymarfer gyda'r tîm. Dylai pob Storïwr gytuno i:

- Gadw at y sgript a chyflwyno'r stori, heb ychwanegiadau na byrfyfyrio, gan ddilyn canllawiau Llawlyfrau Agor y Llyfr
- Caniatáu i bob stori siarad drosti ei hun, fel stori o'r Beibl, nid fel pregeth
- Cysylltu'n agos ac yn sensitif gydag ysgolion, a bod yn ystyriol o'r amgylchedd addysgol
- Gwneud cyn lleied ag sy'n bosib o alwadau ar ysgolion a bod yn ymwybodol mai ymwelwyr ar wahoddiad yw'r tîm
- Dangos parch a sensitifrwydd tuag at grefyddau eraill, ac at rai sydd heb ffydd
- Cyflawni gofynion diogelu perthnasol
- Cynnal hawlfraint deunydd Agor y Llyfr.

Rhaid i aelod o staff bod gyda'r Storïwyr yn ystod pob un Gwasanaeth/Addoliad ar y cyd.

Beth i ddisgwyl nesaf

Bydd Agor y Llyfr yn darparu rhif cofrestru i bob aelod o'r tîm – anfonir y rhain i'r Arweinydd Tîm i'w dosbarthu. Bydd y rhifau hyn yn galluogi'r Storïwyr i brynu llawlyfrau a nwyddau, yn ogystal â chael mynediad at adnoddau ychwanegol ar-lein, er enghraifft syniadau propiau 'DIY' ar ein gwefan.

Yr ydym yn disgwyl i bob Storïwr gael copi o Feibl Newydd y Storïwr a'r llawlyfr ar gyfer storïau pa flwyddyn bynnag y byddwch yn eu cyflwyno.

Efallai y byddech chi neu eich eglwys am gyflwyno llawlyfr i'r pennaeth a Beibl Newydd y Storïwr i'r ysgol fel rhodd.

Yn bennaf oll – mwynhewch, a chofiwch y gall bywydau pobl newid am byth wrth iddynt ymgysylltu â'r Beibl.

Diogelu – crynodeb

Yr ydym yn cymryd ein hymrwymiad i gynnal amgylchedd diogel i blant o ddifrif, ac yr ydym am sicrhau fod ein Storïwyr yn cael eu harfogi a'u cefnogi i ddelio gyda materion diogelu.

Disgwylir i'r Storïwyr gadw at ein Polisi Diogelu, Côd Ymddygiad a Chôd Ymarfer – gellir gweld pob un o'r rhain yn llawn ar ein gwefan gan gynnwys rhai dogfennau a chwestiynau cyffredin.

Mae'n ofynnol i bob eglwys sicrhau fod eu storïwyr yn cael eu recriwtio a'u fetio yn briodol er mwyn gwirio eu haddasrwydd ar gyfer gwaith Agor y Llyfr, a hynny cyn iddynt gychwyn ar eu rôl.

Ceir person dynodedig yn gyfrifol am Ddiogelu o fewn pob ysgol gynradd (y pennaeth sydd yn gwneud hyn yn aml). Cyfeirir atynt fel yr Uwch Berson Dynodedig yma yng Nghymru. Dylai pob Storïwr wybod pwy yw'r person yma. Dylai Arweinwyr Tîmoedd Agor y Llyfr sicrhau eu bod yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am Bolisi Diogelu a gweithdrefnau perthnasol diogelu yr ysgol, gan rannu'r wybodaeth gyda gweddill y tîm. Mae angen i'r diweddariad gynnwys:

- Sut i weithredu fel tîm adrodd straeon pan ar dir yr ysgol, e.e. y trefniadau y cytunwyd arnynt i gasglu plant ar gyfer ymarfer i fod yn rhan o'r gwasanaeth/gweithred o addoli ar y cyd
- gweithdrefnau hysbysu am unrhyw bryderon ynghylch plant unigol
- gweithdrefnau adrodd am unrhyw ymddygiad amhriodol gan Storïwyr
- gweithdrefnau adrodd am unrhyw ddigwyddiad oddi allan i dir yr ysgol
- Ac unrhyw beth arall mae UBD (Uwch Berson Dynodedig) yr ysgol yn teimlo sydd yn addas er mwyn amddiffyn unigolion perthnasol.

Fe wnawn bopeth o fewn ein gallu i hybu arfer da o ran ymddygiad storïwyr pan mae plant yn bresennol drwy bapurau ysgrifenedig, hyfforddiant a gweithdai dilynol. Mae rhai esgobaethau, sefydliadau eglwysig a Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhedeg cyrsiau Diogelu neu ddyddiau hyfforddiant. Mae rhai ysgolion hefyd yn trefnu hyfforddiant o'r fath ar gyfer gwirfoddolwyr. Yr ydym yn annog pob Storïwr unigol i holi am y rhain ac i fynychu lle mae hynny'n bosibl.

Ewch i'n gwefan i weld ein Polisi Diogelu llawn, y Côd Ymddygiad, Cwestiynau Cyffredin a disgrifiadau rôl ar gyfer Storïwr, Arweinydd Tîm a Dirprwy Arweinydd Tîm – openthebook.net neu cysylltwch Sarah ar **07554 005423.**

A wnewch chi ddychwelyd y ffurflenni cofrestru wedi eu cwblhau drwy'r post i:
Open the Book, Bible Society, Stonehill Green, Westlea, Swindon SN5 7DG

June 2019
PR000451

Cymdeithas y Beibl